



# Maniffesto Ieuenctid EUROPARC

**GALWAD AM NEWID  
MEWN CYMUNEDAU GWLEDIG  
AC ARDALOEDD GWARCHODEDIG**

---

PARC CENEDLAETHOL Y CAIRNGORMS,  
YR ALBAN, Y DEYRNAS UNEDIG  
MIS MEDI 2018

**RYDYM NI ANGEN **CREU** CYMUNEDAU  
GWLEDIG MWY HUNANGYNHALIOL, AMRYWIOL  
A GWYDN DRWY EWROP**

Mae gan Ardaloedd Gwarchodedig ran ganolog yn hyn. Rydym yn credu na ellir gwneud hyn os nad ydym yn **YMGYSYLLTU** pobl ifanc yn llawn â gwaith yr Ardaloedd Gwarchodedig, bioamrywiaeth a datblygu cymunedau gwledig.

Mae pobl ifanc yn dod â syniadau newydd a chreadigol er mwyn cynnal ein hardaloedd gwledig.

**GALLWN NI ADEILADU CYMUNEDAU I DDOD  
YN FWY **CYSYLLTIEDIG**, **MEDDWL**  
**AGORED A GWEITHREDOL.****

**RYDYM NI'N DYMUNO **GWARCHOD A CHADW** EIN  
HAMGYLCHEDD, DATBLYGU **CYSYLLTIAD** DWFN Â **NATUR**,  
SYDD YN CAEL EFFEITHIAU CADARNHAOL AR IECHYD A LLESIAINT**

Mae'n rhaid inni gael y cyfle i aros mewn ardaloedd gwledig ac er mwyn inni osgoi colli cysylltiad â **GWREIDDIAU EIN TEULU** a'n **TRADDODIADAU DIWYLLIANNOL**.  
Gallwn wrthbwyso rhai o'r problemau sy'n gysylltiedig â phoblogaeth wledig sy'n heneiddio ac adeiladu cymunedau gwydn a chynaliadwy.

**RYDYM EISIAU **CYSYLLTU** Â'N GILYDD,  
DRWY'R CENEDLAETHAU A CHYDA EIN  
**CYMUNED** AA LLE, ER MWYN  
**RHANNU** EIN SYNIADAU.**

Mae'r Maniffesto hwn yn ffynhonnell **syniadau ac ysbrydoliaeth** ar gyfer gwneuthurwyr penderfyniadau mewn Ardaloedd Gwarchoddedig a chymunedau gwledig **er mwyn sicrhau ymglymiad ac ymrymusiad** pobl ifanc.

Mae angen agwedd eglur, gyson a chydlynol tuag at ymgysylltu pobl ifanc yn ystyrllon â chymunedau gwledig ac mae angen yr amgylchedd naturiol er lles pawb a chenedlaethau'r dyfodol.

Mae cymunedau gwledig yn dioddef o ddadboblogi; mae angen prosiectau arloesol a chyfleoedd cyfartal i alluogi byw annibynnol ac annog economi gytbwys ac iach ar gyfer pawb.

Mae gan bobl ifanc i gyd greadigedd a dychymyg, a dylid meithrin y doniau hyn er mwyn ein helpu ni i ddatblygu fel olynwyr i etifeddu ein tirweddau gwledig.

## 1 YMRYMUSO IEUENCTID

## 2 BYW

## 3 DYSGU

## 4 GWEITHIO

## 5 EIN GALWAD I WEITHREDU

Rydym eisiau dangos ein bod yn **GOFALU** am ein natur a'n diwylliant, er mwyn bod yn rhan o'r gymuned;

**RYDYM EISIAU CYDWEITHIO Â CHI ER MWYN CREU EIN DYFODOL AR Y CYD AG ERAILL.**

**ARDALOEDD GWARCHODEDIG,  
SEFYDLIADAU GWLEDIG ERAILL  
AC MAE'N RHAID I WNEUTHURWYR PENDERFYNIADAU  
EDRYCH TUAG AT Y DYFODOL,**

**GWRANDO AR LAIS POBL IFANC  
A RHOI CYFLE INNI ARWAIN.**

1

# YMRYMUSO IEUENCTID

Pobl ifanc yw dyfodol Ardaloedd Gwarchoddedig Ewrop ac rydym ni'n **POENI** ynglŷn â chynnal ein tirweddau gwledig, ond nid oes gennym gynrychiolaeth ddigonol yn y broses gwneud penderfyniadau.

Rydym eisïau **CYSYLLTU** â'n **CYMUNED** ac rydym yn gallu cyfrannu a gweithredu newid ac yn fodlon gwneud hynny os ydym yn cael y cyfle.

Gallwn ni **RANNU** ein hatebion syml er mwyn ymgysylltu â chenedlaeth sy'n ymhél a thechnoleg.

Gallwn ni helpu i **YMRYMUSO'R** genhedlaeth nesaf i ddatblygu profiad a sgiliau a fydd yn ein paratoi ar gyfer **RÔL WEITHREDOL FEL ARWEINWYR Y DYFODOL** yn ein Hardaloedd Gwarchoddedig a'n cymunedau gwledig.

Rydym ni eisïau i bobl **WRANDO** ac **YMDDIRIED** y cyfle ynom ni ar gyfer cymryd rhan yn uniongyrchol wrth wneud penderfyniadau.

## BETH YR YDYM ANGEN I CHI EI WNEUD

- **SEFYDLU** cyngorau ieuenctid i ddod â syniadau ac anghenion pobl ifanc at wneuthurwyr penderfyniadau lleol a chenedlaethol.
- Darparu lle ar fyrrdau ar gyfer un o'r bobl ifanc.
- **CREU** cronfa prosiect ieuenctid ar gyfer prosiectau sy'n cael eu cynllunio, eu gweithredu a'u hadrodd gan bobl ifanc.
- Cyflwyno cynllun cynefino a fydd yn galluogi aelodau o'r bwrdd sy'n oedolion **DDEALL** cynrychiolaeth ieuenctid.

## Maniffesto Ieuenctid EUROPARC

### CYFATHREBU

- Defnyddio platfformau ar-lein ar gyfer ymgynghoriadau, arolygon a refferenda, gyda sesiynau codi ymwybyddiaeth wyneb yn wyneb ynglŷn â materion er mwyn **CYSYLLTU** â phobl ifanc.
- **GALLUOGI** Grwpiau ieuenctid i **RANNU** eu cyflawniadau a mynegi eu barn a'u pryderon er mwyn cyrraedd cynulleidfa hŷn drwy'r cyfryngau traddodiadol.

# BYW

Mae cefnogi pobl ifanc i fyw mewn ardaloedd gwledig yn ein helpu ni i aros yn **GYSYLLTIEDIG** â'n **CYMUNED** a rhannu er mwyn datblygu ei dyfodol.

Mae ardaloedd gwledig yn aml yn rhai anodd eu cyrraedd a theithio o'u cwmpas. Mae angen i bobl ifanc **GYSYLLTU** yn y byd go iawn a'r byd rhithwir er mwyn ffynnu.

Ni all cymdeithas fforddio i bobl ifanc barhau i adael ardaloedd gwledig.

Rydym ni angen **CEFNOGAETH** i fod yn rhan o'r **GYMUNED** ac adeiladu ei **PHRESENNOL** a'i **DYFODOL**.

## ISADEILEDD

- **DARPARU CLUDIANT** drwy'r flwyddyn. Wedi'i gyllido yn gydweithredol gan ardaloedd gwarchoddedig, llywodraeth leol a chenedlaethol, busnesau a thwristiaid.
- **GWELLA** cysylltedd digidol er mwyn caniatáu datblygu modelau busnes a chymdeithasol arloesol.
- **CREU** rhwydweithiau a mentrau Teithio Gweithredol er mwyn annog seiclo a cherdded i helpu iechyd a llesiant a gwrthbwysu newid yn yr hinsawdd.

## FFORDDIADWYEDD

- Mae llawer o bobl ifanc yn dymuno aros yn eu cymunedau. Cyflwyno cynllun i ganiatáu pobl ifanc brynu nwyddau a gwasanaethau yn rhatach er mwyn defnyddio bodolaeth fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig.

## Manffesto Ieuenctid EUROPARC

### CYMUNED

- Mae pobl ifanc yn rhan o ddiwylliant a hanes yr ardal. **CYSYLLTWCH** â nhw a darparwch weithgareddau ymgysylltiol a chyfleoedd cymdeithasol ar gyfer pobl ifanc, sy'n canolbwyntio ar ddysgu a **CHYFRANOGI** yn nhrefadaeth ddiwylliannol a hanes eu hardal gyffredin.
- Datblygu cynlluniau cyfeillio rhyng-genedliadol / rhannu sgiliau er mwyn brwydro yn erbyn arwahanrwydd gwledig ac adeiladu synnwyr o gymuned. Gall bobl ifanc **RANNU** eu dealltwriaeth ynglŷn â thechnoleg a'r cyfryngau cymdeithasol; gall bobl hŷn eu helpu drwy **DDYSGU** sgiliau gwledig.
- **CREU** lleoedd hwyliog, diogel ar gyfer pobl ifanc i GYSYLLTU â'i gilydd.

- Datblygu cynllun tai ar gyfer unigolion sy'n byw a/neu'n gweithio mewn Ardaloedd Gwarchoddedig a chymunedau gwledig ar incwm isel. Dylai dewisiadau tymor byr neu barhaol gael eu darparu er mwyn paratoi ar gyfer gwahanol gyfleoedd cyflogaeth.

3

# DYSGU

Rydym ni eisiau creu cymunedau gwledig mwy hunangynhaliol, amrywiol a gwydn drwy Ewrop, rydym ni eisiau dysgu ynglŷn â'n treftadaeth ddiwylliannol a naturiol leol ynghyd â gofalu amdani, ei chynnal a'i RHANNU.

Mae mynediad at addysg academiaidd, ymarferol a galwedigaethol yn ateb effeithiol er mwyn grymuso pobl ifanc a thanio ein diddordeb mewn gyrfaoedd gwledig.

Mae Pobl Ifanc eisiau **CYSYLLTU** â'n **LLEOEDD** a defnyddio'r addysg hwnnw i aros a datblygu ein **CYMUNED**.

Rydym ni eisiau buddsoddi mewn hyfforddiant ar gyfer y **DYFODOL**.

Trosglwyddwch **DDOETHINEB AC YSBRYDOLIAETH** i Bobl Ifanc os gwelwch yn dda.

## MWY O ADDYSG NATUR

- **CREU** cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc o oed cynnar i ddysgu am eu treftadaeth leol naturiol a diwylliannol drwy wirfoddoli, Rhaglenni Parcmy'n lau a chlybiau eraill sy'n seiliedig ar natur.
- Gwneud **CYSYLLTIADAU** rhwng ysgolion lleol ac Ardaloedd Gwarchodedig i gynnwys hyfforddiant athrawon, ymweliadau Parcmy'n a theithiau addysgol.
- Datblygu adnoddau addysgol ynglŷn â threftadaeth naturiol leol i helpu athrawon symud y dysgu i'r awyr agored.

## YSBRYDOLI DIDDORDEB

- **CREU** platform cymdeithasol a rhaglen o ddiwyddiadau mewn Ardaloedd Gwarchodedig a chymunedau gwledig er mwyn helpu pobl ifanc **RANNU** a **CHYSYLLTU**.

## Maniffesto Ieuentid EUOPARC

## MWY O GEFNOGAETH

- **CREU** mwy o fusnesau wedi'u harwain gan bobl ifanc drwy ddarparu cyrsiau entrepreneuriaeth er mwyn dysgu ynglŷn â hunangyflogaeth a sut i greu eich busnes eich hun.
- **CREU** cysylltiadau rhwng busnesau gwledig a sefydliadau addysg uwch er mwyn darparu gwybodaeth ar gyfer pobl ifanc ynglŷn â gyrfaoedd gwledig posibl a darparu hyfforddiant arbennig a phrofiad gwaith.

- Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol er mwyn ysbrydoli ymwybyddiaeth amgylcheddol a defnyddio llysgenhadon ieuentid i **ANNOG** postadau a chynnwys.

4

# GWEITHIO

Rydym ni'n **CREDU NA DDYLAI** darparu swyddi a datblygu'r economi leol ddigwydd ar draul yr amgylchedd naturiol;

yn yr un modd, ni ddylai arferion cyfeillgar amgylcheddol beryglu safon bywyd ar gyfer preswylwyr lleol.

Dylai mentrau cyflogaeth ieuentid llwyddiannus fod yn greadigol, hyblyg, arloesol, hunanddigonol yn ariannol a chreu cyfleoedd cynaliadwy ar gyfer swyddi.

Mae gan yr holl bobl ifanc **GREADIGEDD** a **DYCHYMYG** a dylid meithrin y doniau hyn er mwyn ein helpu ni i ddatblygu fel entrepreneuriaid.

## Maniffesto Ieuentid EUOPARC

### ANGEN AM GYFLEOEDD SWYDDI

- Mae pobl ifanc eisiau gweithio. Busnesau a sefydliadau mewn Ardaloedd Gwarchoddedig a chymunedau gwledig i ddarparu cyfleoedd a all wireddu potensial pobl ifanc drwy brentisiaethau, interniaethau gyda hyfforddiant a/neu swyddi wedi'u teilwra ar gyfer pobl ifanc mewn addysg lawn amser e.e. ar ôl ysgol, gyda'r nosau ac ar benwythnosau.
- **CREU** partneriaethau rhwng ysgolion a busnesau lleol i gynnig swyddi ar gyfer pobl ifanc. Dylai'r swyddi hyn gynnwys cyfle i symud ymlaen, codiadau cyflog a chynnig geirda fel cymhellion.

### ANGEN MWY O HYFFORDDIANT

- Darparu cynlluniau entrepreneuriaeth ieuentid mewn ysgolion a cholegau a fydd yn helpu pobl ifanc i adeiladu a chreu eu busnesau gwledig eu hunain drwy roi cefnogaeth ac anogaeth iddyn nhw.
- **RHANNU**'r doethineb o ysbrydoli pobl ifanc ac entrepreneuriaid gwledig llwyddiannus o Ewrop gyfan, gan eu gwahodd nhw i roi sgysiau mewn ysgolion, clybiau ieuentid a chaffis lleol.

### CYFLOGAU ISEL

- Talu'r cyflog byw neu'r hyn sy'n cyfateb iddo i bob gweithiwr gwledig llawn oed, er mwyn lleddfu'r costau byw a chludiant uchel mewn ardaloedd gwledig.
- Cyflogwyr yn darparu cymhellion er mwyn lleddfu'r costau byw a chludiant uchel mewn ardaloedd gwledig e.e. costau tai a gymorthdelir, cyfleoedd ar gyfer symud ymlaen a hyfforddiant.

5

Gadewch inni  
weithredu'r  
**Maniffesto**  
**Ieuencid**  
**EUROPARC** hwn  
a chyd-ddylunio  
dyfodol cynaliadwy  
– yn awr!

# EIN GALWAD I WEITHREDU

Cysylltwch â'ch  
ieuencid lleol,  
ymwelwch ag ysgolion  
a chlybiau ieuencid.

Anogwch nhw i rannu eu  
meddyliau er mwyn ysbrydoli  
eu cymheiriaid i greu  
menter ar y cyd.





## Maniffesto Ieuentid EUROPARC

Ymgeisiwch am gyllid ar gyfer prosiectau i ymgysylltu â phobl ifanc os bydd rhaid ac ymestyn am gefnogaeth **gan y gymuned**.

Dylech **fonitro** a **gwerthuso** eich cynnydd, gan rannu cyfrifoldeb gyda phobl ifanc.

Gweithredwch eich cynlluniau prosiect - gan ddarparu ateb i **gyfleoedd arweinyddiaeth** ac **ymglymiad llywodraethiant** mewn cydweithrediad â'ch partneriaid ifanc.

Gyda'ch gilydd, dewiswch y materion blaenoriaeth yr ydych chi eisiau ymdrin â nhw o'r Maniffesto, **dechreuwch gynllunio prosiect gyda'ch gilydd**, gweithio ar ddealltwriaeth wedi'i rhannu o'r anghenion a'r atebion lleol.

**Adroddwch a rhowch gyhoeddusrwydd** i'ch syniadau, eich cynnydd a'ch canlyniadau drwy'r cyfryngau lleol a chymdeithasol.

**Arhoswch mewn cysylltiad** ag EUROPARC er mwyn rhannu eich profiad a'ch prosiectau Ieuentid ar lefel Ewropeaidd – **dysgwch ac ysbrydolwch!**

[youth@europarc.org](mailto:youth@europarc.org)

[facebook.com/europarcyouthmanifesto](https://facebook.com/europarcyouthmanifesto)

[europarc.org/youth-manifesto](https://europarc.org/youth-manifesto)

**#EUROPARCyouthmanifesto**

# Rydym ni'n edrych ymlaen at weithio gyda chi i greu dyfodol bywiog

ar gyfer pobl ifanc, natur a'n  
cymunedau gwledig.

*Mae'n rhaid i'r holl brosiectau sy'n ymddangos  
o Fanifesto Ieuencid EUROPARC geisio  
cyrraedd y safonau amgylchedd uchaf ynglŷn  
â gwarchod cynefinoedd, prinder adnoddau a  
lliniaru newid yn yr hinsawdd.*





Tapadh leat! Thank you! Kiitos! Merci! Aitäh! Dankeschön! Takk! Děkuji!  
 Paldies! Teşekkür! Hvala! Grazie! Dank je! ευχαριστώ! Tack! Дякую!  
 D'akujem! Diolch ichi! Dziękuję Ci! Mulțumesc! Tapadh leibh!  
 Faleminderit! Köszönöm! Pakka þér fyrir! Хвала вам! Gracias!  
 Благодаря ви! Obrigado! Təşəkkür! გმადლობთ!  
 Շնորհակալություն! Gràcies! ありがとう!  
 Buíochas a ghabháil leat! Ačiū! Спасибо!  
 كل اركش  
 הודות



Tîm Manifffesto Ieuentid EUROPARC



Rieska Ravakka Keskipiste



Mae'r prosiect hwn yn cael ei gyllido yn rhannol gan Lywodraeth yr Alban  
 a rhaglen LEADER 2014-2020 y Gymuned Ewropeaidd (Grŵp Gweithredu Lleol y Cairngorms).

# Manifffesto Ieuenctid EUROPARC



[europarc.org/youth-manifesto](http://europarc.org/youth-manifesto)  
[facebook.com/europarcyouthmanifesto](https://facebook.com/europarcyouthmanifesto)

i gefnogi:

